

Bwriedir trefnu bws eleni eto i fynd â'r plant i'r Bala ac yn ôl.

Mae hwn wedi bod yn gwrs poblogaidd dros y blynyddoedd, ac mae'r plant wedi mwynhau eu hunain arno. Mae'n gyfle iddynt ddysgu am Iesu Grist trwy bob math o wahanol weithgareddau. Bydd cyfle hefyd i fynd i nofio yn y pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden y dref ac i wyllo ffilm yn y Coleg ar y nos Sadwrn.

Ceir rhagor o fanylion gan y Gweinidog.

Cymdeithas Llanberis

Cynhaliwyd Swper Cymdeithas Undebol Llanberis yng Ngwesty'r Fictoria nos Fawrth. Diolch, i bawb a ddaeth yno, i Eifion a Gwyneth Roberts am drefnu'r cyfan, ac i Eifion am ddangos y lluniau o rai hen adeiladau Llanberis.

Agor y Llyfr

Bydd tim lleol Agor y Llyfr yn ymweld ag Ysgol Gwaun Gynfi yn Neiniolen fore Gwener nesaf, Mawrth 18. Gweddiwch dros y gwaith hwn os gwelwch yn dda.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mawrth 13: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 13

5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Mawrth 20 (Sul y Blodau)

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 27 (Sul y Pasg)

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Ebrill 3

3.30 p.m.—Y Gweinidog

CAPEL COCH A NANT PADARN
Nos Wener, Mawrth 18: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 20: Gwasanaethir yn yr oedfa am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes, Llanfachraeth. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mawrth 20: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Mawrth 20: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Brian Wright, Cyffordd Llandudno.

CARMEL

Dydd Llun, Mawrth 14: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Mawrth 18: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 20: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Gwyndaf Jones, Bangor.

Nos Fawrth, Mawrth 22: 'Darganfod y Ffordd Adref' - Cyfle i feddwl am y Pasg yng nghwmni Casi Jones, am 7.30 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Mawrth 18: Cynhelir y Cyfarfod Gweddi wythnosol yn Cartref, Caeathro am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Mawrth 20 (Sul y Blodau)

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Mawrth 27 (Sul Pasg)

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 674: Dydd Sul, 13 Mawrth, 2016

Y Canghellor Siomedig

Roedd George Osborne wedi bod â'i fryd ar ymestyn oriau siopa ar y Sul ers o leiaf bedair blynedd. Os cofiwch, fe roed hawl i archfarchnadoedd agor am fwy o oriau ar y Sul am rai wythnosau cyn y Gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012. Ac er i Mr Osborne ddadlau bryd hynny mai rhywbeth ar gyfer y Gemau oedd hynny, roedd llawer yn darogan mai ernes o'r hyn y bwriadai'r Canghellor ei sicrhau ar gyfer pob Sul ydoedd. Daeth yn amlwg dros y flwyddyn ddiwethaf mai dyna oedd ei fwriad. Ceisiodd Llywodraeth San Steffan gael y maen i'r wal ddydd Mercher, ond methu a wnaeth wrth i 27 o Aelodau Seneddol Ceidwadol fwrw pleidlais yn erbyn eu plaid eu hunain.

Roedd yn dda gweld y Llywodraeth yn colli'r dydd oherwydd ymgais George Osborne i wneud yr hyn a oedd i fod (meddai ef) yn eithriad dros gyfnod y Gemau Olympaidd yn beth parhaol. Roedd mwy nag un o'r Ceidwadwyr gwrthryfelgar yn beirniadu Mr Osborne am nad oedd sôn am ymestyn oriau siopa'r Sul ym Maniffesto Etholiadol eu plaid y llynedd. Os oedd y Blaid Geidwadol mor benderfynol o newid y ddeddf hon, pam na ellid dweud hynny yn onest nôl yn 2012, ac yna cyn yr Etholiad Cyffredinol?

Flynyddoedd yn ôl, byddai'r canlyniad hwn wedi awgrymu fod y Senedd yn diogelu'r Sul Cristnogol traddodiadol. Ond mae angen bod yn naïf iawn i gredu fod a wnelo sancteiddrwydd y

Sul fel dydd addoliad yr Eglwys â'r hyn a benderfynwyd ddydd Mercher. Nid ystyriaethau crefyddol oedd flaenaf, ond ystyriaethau cymdeithasol ac economaidd. I lawer, hawliau gweithwyr i gael dydd o orffwys, ac i gael tâl ychwanegol os ydynt yn gweithio ar y Sul oedd y cymhelliad dros wrthod cynlluniau'r Llywodraeth, ac nid awydd i gadw'r Sul ar gyfer addoli. Mae'r cymhelliad hwnnw wrth reswm yn ddigon clodwiw.

Mae gwledydd Prydain wedi peidio â bod yn wladwriaeth sy'n cael ei rheoli gan ei chydwybod a'i hegwyddorion Cristnogol. Mae'r dyddiau yr oedd y wladwriaeth (yn honiadol o leiaf) yn cael ei harwain gan safonau Cristnogol wedi hen fynd heibio yng ngwledydd Prydain. Mae llawer o'r Aelodau Seneddol a bleidleisiodd yn erbyn y Llywodraeth ddydd Mercher mewn gwirionedd o blaid ymestyn oriau siopa'r Sul. Ystyriaethau gwleidyddol a wnaeth i'r mwyafrif ohonynt ddilyn y trywydd a wnaethant.

Ni allwn, ac ni ddylwn orfodi'r 'Sul Cristnogol' ar bobl. Ni allwn orfodi cymdeithas i beidio â gwneud pethau, yn cynnwys siopa, ar y Sul, ddim mwy nag y gallwn orfodi pobl i addoli. Ond gallwn amddiffyn gweithwyr a gwarchod eu hawl i ddydd o orffwys, ac i dâl ychwanegol os oes rhaid gweithio ar y Sul. Ac wrth gwrs, mi allwn wastad ddangos fod y Sul yn dal yn arbennig i ni trwy beidio â siopa arno, beth bynnag yr oriau agor.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Capel Carmel

'Darganfod y Ffordd Adref' Nos Fawrth, Mawrth 22 am 7.30 o'r gloch

Cynhelir cyfarfod arbennig cyn y Pasg yng Nghapel Carmel, Llanllechid yng ngwmni'r Parchg Casi Jones, Swyddog Adnoddau yr Annibynwyr yn y Gogledd am 7.30 o'r gloch, nos Fawrth, Mawrth 22.

Bydd 'Darganfod y Ffordd Adref' yn gyfle i feddwl am neges y Pasg mewn gwasanaeth gwahanol i'r arfer.

Bydd yn gyfle i wahodd aelodau ac eraill i ddod atom i ddatlu'r Pasg.

Cydymdeimlad

Cynhelir angladd Mrs Jane Parry, Cartref Maesincla, Caernarfon yng nghapel Carmel, Llanllechid am 12.30 o'r gloch ddydd Mercher, Mawrth 16. Cydymdeimlwn â'i theulu yn eu colled.

Beibl Mari Jones

Mawrth 18–20

Mae'r hanes am Mari Jones yn cerdded i'r Bala at Thomas Charles i brynu Beibl yn gyfarwydd i Gristnogion ym mhob rhan o'r byd. Erbyn hyn, mae canolfan Cymdeithas y Beibl, Byd Mari Jones, yn hen eglwys Llanycil yn adrodd y stori ac yn cyflwyno gwaith y Gymdeithas hon.

Ddiwedd yr wythnos hon bydd Beibl Mari Jones ei hun, yr union Feibl y cerddodd hi'r holl ffordd o'i chartref yn Llanfihangel y Pennant i'r Bala i'w brynu yn dod nôl i'r Bala am dridiau.

Bydd cyfle i'w weld yng nghanolfan Byd Mari Jones rhwng 10.00 a 4.00 o'r gloch ddydd Sadwrn nesaf, Mawrth 19, neu rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch fore Sul, Mawrth 20.

Cynhelir oedfa arbennig yng nghapel Tegid am 7.00 o'r gloch nos Sadwrn i ddatlu'r Beibl ac i groesawu Beibl Mari Jones adref i'r Bala. Bnawn Gwener, bydd y Beibl yn mynd i Fanc Barclays yn Y Bala. A pham hynny? Am mai yn yr adeilad hwnnw yr oedd Thomas Charles yn byw pan ddaeth Mari Jones i'w weld!

LLANW 16

Bydd cynhadledd neu ŵyl LLANW yn cael ei chynnal yng Nghricieth am yr eildro yn ystod yr wythnos wedi'r Pasg, o ddydd Llun, Mawrth 28 hyd nos Iau, Mawrth 31. Mae LLANW wedi dos â phobl o bob rhan o'r wlad at ei gilydd i fwynhau cymdeithas ac addoliad Cristnogol ers oddeutu deng mlynedd erbyn hyn, ac mae'n tyfu a datblygu bob

blwyddyn. Dyma'r eildro iddi gael ei chynnal yn y Gogledd, yng Nghricieth, ac mae felly'n gyfle arbennig i ni bicio draw i ambell un o'r cyfarfodydd, os nad i'r cyfan. Mae'n bwysig nodi fod yna groeso i bobl fynd i gyfarfod neu ddau yn unig. Os rhywbeth, mae yna gymaint o bobl yn gwneud hynny ag sy'n aros yno am yr wythnos gyfan. Cynhelir oedfa bob nos a bob bore. Mae gwahanol bobl yn arwain yr addoliad ac yn pregethu bob dydd.

Bydd y cyfarfodydd yn y Neuadd Goffa (ar y Sgwâr yng Nghricieth).

Am 7 o'r gloch o nos Lun hyd nos Iau, pregethir gan y canlynol:
Nos Lun: Steffan Morris, Llanuwchllyn
Nos Fawrth: Huw Powell Davies, Yr Wyddgrug
Nos Fercher: Derek Rees, Llanelli
Nos Iau: Gwilym Jeffs, Caerdydd

Am 10.00 o'r gloch fore Mawrth, Mercher ac Iau, ceir anerchiadau gan y Parchg Mark Thomas, sy'n weinidog yn Wrecsam.

Cwrs Plant yn Y Bala Mai 13–15, 2016

Bydd cyfle i blant yr Ofalaeth fynd i aros yng Ngholeg y Bala ym mis Mai, o nos Wener, Mai 13 hyd amser cinio dydd Sul, Mai 15.

Mae'r cwrs hwn wedi ei drefnu ar y cyd â Gofalaeth Llanrug a Bethel ers sawl blwyddyn erbyn hyn, a dyna'r trefniant ar gyfer eleni eto.

Mae croeso i blant Carmel a Bethlehem ymuno â ni os ydynt yn dymuno hynny.

Mae'r cwrs ar gyfer plant 8 i 12 oed, sef plant Blwyddyn 3 i 6 (ond mae'n rhaid eu bod wedi cael eu pen blwydd yn 8 oed erbyn dyddiad y cwrs, yn ôl rheolau'r Coleg).

Balm o Salm



'Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fyseidd, y lloer a'r **BEIBL BYW** sêr a roddaist yn eu lle, beth yw meidrollyn, iti ei gofio, a'r teulu dynol, iti ofalu amdano?' (Salm 8:3–4).

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mrs Ceri Dart.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Mae amryw o aelodau ffyddlon ein heglwysi yn methu â dod i'r oedfaon oherwydd gwaeledd, ac anfonwn ein cofion gorau at bawb ohonoch.

Oedfaon Deiniolen Patrwm newydd

Fore Sul diwethaf penderfynwyd roi heibio oedfa'r bore am y tro. Y gobaith yw y bydd pobl oedfa'r bore yn dod i'r oedfa a gynhelir yn nes ymlaen yn y dydd am 5.00 o'r gloch neu yn y pwn. Bydd hyn yn gyfle i ddod â phawb at ei gilydd mewn un oedfa gryfach bob Sul yn Neiniolen.

Bydd hyn yn golygu fod y Gweinidog ar Sul cyntaf y mis yn arwain oedfa yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch yn hytrach nag am 10.00 o'r gloch, ac yna yn arwain oedfa am 5.00 o'r gloch ar drydydd Sul y mis. Gobeithio'n fawr y bydd cymaint â phosibl yn medru dod i'r un oedfa hon bob Sul.